**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Nick Hillman OBE,
Cyfarwyddwr
Sefydliad Polisi Addysg Uwch

08 Gorffennaf 2025

**Materion y mae'r sector Addysg Uwch yng Nghymru yn eu hwynebu**

Annwyl Nick,

Rydym wedi bod yn edrych ar y trafferthon y mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn eu hwynebu. Er bod hyn wedi cychwyn fel sesiwn sengl gyda'r bwriad o edrych ar doriadau arfaethedig ym Mhrifysgol Caerdydd, mae wedi ehangu o ran cwmpas. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi clywed gan Medr, Prifysgol Caerdydd, UCU, Unsain ac UCM Cymru. Rydym hefyd wedi ysgrifennu at holl sefydliadau addysg uwch Cymru ac wedi cael ymatebion ganddynt. Mae rhagor o wybodaeth am yr ymchwiliad ar gael ar ein gwefan yn:
https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=45325

Rydym hefyd wedi bod yn dilyn gyda diddordeb brwd y gwaith y mae ein pwyllgorau cyfatebol mewn deddfwrfeydd eraill wedi bod yn ei wneud ar y sector addysg uwch. Er bod rhai materion yn benodol i gyd-destun Cymru, mae'r sector ledled y DU yn wynebu llawer o'r heriau hefyd.

Mae'r heriau a glywsom yn uniongyrchol amdanynt yn cynnwys:

- Ffioedd dysgu nad ydynt yn cyd-fynd â chostau cyflwyno cyrsiau;
- Gostyngiadau sylweddol mewn cofrestriadau o ran myfyrwyr rhyngwladol;
- Effaith prifysgolion 'tariff uwch' yn troi at y farchnad gartref i fynd i'r afael â heriau ariannol;
- Problemmau o ran cyfranogi yng Nghymru;

- Y model cyllido addysg uwch;
- Effaith cyfraith cystadleuaeth wrth greu rhwystrau rhag cydweithio;
- Pwysau o ran chwyddiant costau, yn enwedig costau ynni;
- Cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn; a
- Cyllid ymchwil nad yw'n talu costau llawn gwaith ymchwil.

Rydym yn awyddus i glywed am yr atebion posibl i'r problemau sy'n wynebu prifysgolion ar hyn o bryd, yng Nghymru yn benodol, yn enwedig o safbwynt ddiduedd. Fel melin drafod sy'n arbenigo mewn addysg uwch, a fyddech chi mewn sefyllfa i ymateb yn ysgrifenedig gyda'ch syniadau o ran yr atebion i'r problemau sy'n wynebu'r sector ar hyn o bryd?

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am waith y Pwyllgor ar hyn, cysylltwch â’n Clerc, Naomi Stocks, naomi.stocks@ssenedd.cymru

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 2 Medi.

Yn gywir,

Buffy Williams AS

Cadeirydd
y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.